# Gwasanaethau i Fusnes

## Ymchwil ar y Cyd

### Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP)



Mae Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth yn golygu creu partneriaeth rhwng eich busnes a Phrifysgol, gan eich galluogi i gael mynediad at sgiliau ac arbenigedd er mwyn helpu eich cwmni i ddatblygu.

Mae'r bartneriaeth hefyd yn golygu y bydd un neu fwy o raddedigion yn helpu i hwyluso'r trosglwyddiad gwybodaeth hwn. Bydd y person graddedig yn gweithio o fewn eich cwmni ar broject sy'n greiddiol i'ch anghenion chi, ac fe gaiff ei arolygu ar y cyd gan bersonél y cwmni ac aelod academaidd o'r Brifysgol sy'n rhan o'r fenter.

Mae gan Brifysgolion Aberystwyth a Bangor dros 20 mlynedd o brofiad o redeg projectau KTP. Bangor yw un o'r ychydig sefydliadau sydd wedi derbyn tair gwobr o bwys gan Lywodraeth y DU yn gydnabyddiaeth am ei gwaith ac wedi darparu yn llwyddiannus dros 100 KTP.

**Beth yw'r manteision ar gyfer cwmnïau sy'n cymryd rhan?**

Mae allbynnau perfformiad busnes yn amrywio o achos i achos, ond mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd i law yn dynodi y gall busnes ddisgwyl:

- Cynnydd o dros £220,000 mewn elw blynyddol cyn treth
- Creu tair swydd newydd go iawn
- Cynyddu sgiliau'r staff presennol

**Sut fath o sefydliadau all gymryd rhan?**

Gall busnesau o unrhyw faint ac o unrhyw sector gymryd rhan mewn project KTP, gan gynnwys y sector 'dim am elw' a sefydliadau yn y sector gyhoeddus. Hyd yma, mae Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth wedi ymwneud â phrojectau yn y meysydd canlynol: Datblygiad TG (datblygu meddalwedd, gwefan systemau), Cemeg (prosesau cemegol, fferyllol a chynhyrchu), Datblygu Busnes a Marchnata, Diwydiannau Creadigol a Cherddoriaeth, a llu o ddisgyblaethau eraill.

**Prifysgol Aberystwyth**
Christopher Heidt - Rheolwr Contractau a Gweithrediadau
E: servicestobusiness@aber.ac.uk / 01970 622385

**Prifysgol Bangor**
Tudur Williams - Rheolwr Datblygu Busnes
E: servicestobusiness@bangor.ac.uk / 01248 388492

www.aberbangorstrategicalliance.ac.uk/business